## RHAN 4 – RHEOLAU GWEITHDREFN

---

## RHEOLAU GWEITHDREFN PENODI AELODAU DIRPRWYOL

(a) Gall aelod o bwyllgor nad sydd yn gallu mynychu cyfarfod gyflwyno cais i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd i benodi Aelod dirprwyol, gyhyd a bod yr Aelod hwnnw o'r un grŵp gwleidyddol.

(b) Rhaid i gais i benodi Aelod dirprwyol:

- (i) Datgan enw'r Aelod sy'n gwneud y cais ac enw'r Aelod dirprwyol arfaethedig;
- (ii) Nodi'r cyfarfodydd pwyllgor (gan gynnwys dyddiadau'r cyfarfodydd) y mae'r Aelod dirprwyol i'w mynychu;
- (iii) Egluro'r rhesymau pam fod angen y dirprwyo (gan roi ystyriaeth i baragraff (e) isod);
- (iv) Cadarnhau cydsyniad y darpar Aelod dirprwyol i fynychu'r cyfarfodydd pwyllgor a nodwyd fel dirprwy; a
- (v) Gael ei dderbyn gan Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd dim hwyrach na 9am am y pedwerydd diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

(c) Rhaid i Aelod dirprwyol:

- (i) Fod yn gymwys i'w benodi i'r pwyllgor o dan unrhyw un o reolau eraill y cyfansoddiad neu yn ôl y gyfraith; a

- (ii) ar gyfer pwyllgor rheoliadol neu led gyfreithiol, fod wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant cyfredol hanfodol parthed gweithdrefnau perthnasol a'r gyfraith, yn unol â gofynion cylch gorchwyl y pwyllgor.

(d) Yn amodol ar gydymffurfio â'r rheol hon a chyhyd a'i fod ef/hi yn fodlon fod y dirprwyo yn briodol, bydd y Swyddog Monitro yn ymarfer ei awdurdod dirprwyedig i benodi dirprwy yn unol â'r cais ac i drefnu i hysbysu arweinydd y grŵp parti a Chadeirydd y pwyllgor ynghylch y dirprwyo.

(e) I ddibenion y rheol weithdrefn hon, bydd dirprwyo yn briodol dim ond pan nad yw Aelod a benodir yn gallu mynychu cyfarfodydd pwyllgor penodol dros gyfnod estynedig o amser (cyfnod yn hwy nag un cyfarfod pwyllgor) yn sgil un (neu fwy) o'r canlynol:

- (i) Ymrwymiadau gwaith neu deulu na ellir eu hosgoi;
- (ii) Salwch difrifol;
- (iii) Mamolaeth, tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu;
- (iv) Absenoldeb Teuluol Arall, a gymeradwywyd o dan Reolau Gweithdrefn Absenoldeb Teuluol;
- (v) Cyfrifoldebau gofalu; neu
- (vi) Rhyw reswm da arall.

(f) Gall Aelod dirprwyol fynychu cyfarfod pwyllgor dim ond yn ôl y rhinwedd honno:

   (i) Er mwyn cymryd lle Aelod cyffredin y maent yn ddirprwy dynodedig iddo; a
   (ii) Pan fydd yr Aelod cyffredin yn absennol o'r cyfarfod ar ei hyd.

(g) Bydd y dirprwyo yn para hyd y cyfarfod/ydd a nodwyd, oni bai bo cais penodol fel arall a hwnnw edi ei gytuno gan y Swyddog Monitro.

(h) Rhaid i Aelod dirprwyol sy'n mynychu cyfarfod siarad a phleidleisio yn ei rinwedd ei hun, ac mae o dan yr un rhwymedigaethau ag unrhyw Aelod arall o ran datgan diddordebau personol a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Aelodau a rheolau gweithdrefnol perthnasol.

(i) Ni chaiff Aelod dirprwyol ei benodi i:

   y Cabinet neu'r Pwyllgor Cynllunio (yn unol â'r Cyfansoddiad, Erthygl 7.4 Rheol Weithdrefn (Y Cabinet) a'r Pwyllgor Cynllunio 1.1B)

(j) Mae dirprwy a gaiff ei benodi o dan y rheol weithdrefn hon gan y Swyddog Monitro ar gais cadeirydd pwyllgor (neu Is-Gadeirydd) i gyflawni swydd aelod Pwyllgor yn unig, ac nid i gyflawni swydd Cadeirydd (neu Is-gadeirydd), oni bai ei fod wedi ei ethol neu ei benodi i'r swydd honno gan y Cyngor llawn neu'r Pwyllgor.